***EDUCATION SERVICE***
***GWASANAETH ADDYSG***
***Chief Officer, Education & Lead Director for Children and Young People***
***Prif Swyddog, Addysg & Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Plant a Phobi Ifanc***
***Dermot McChrystal BA (Hons) PGCE MSSc***

*Your re/Eich cyf:*
*Our ref/Ein cyf:* DMc/TH
*Date/Dyddiad:* 8 Mehefin 2020

*Please contact/Cysyllter â* Dermot McChrystal
*Direct line/Llinell ffôn:*
*Direct fax/Llinell ffacs:*
*Email/Ebost:* dermot.mcchrystal@torfaen.gov.uk

Annwyl Rieni/Ofalwyr

Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol rhannu gyda chi yr wybodaeth ddiweddaraf am ail-agor yn raddol holl ysgolion Torfaen.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 3 Mehefin 2020 y byddai pob plentyn yn cael y cyfle i 'Ddod i'r ysgol, Dal ati i ddysgu, Paratoi ar gyfer yr haf a mis Medi'. Bydd y cyfnod nesaf yn cychwyn ar 29 Mehefin 2020 gyda'r tymor yn cael ei ymestyn wythnos hyd at 27 Gorffennaf 2020.

Ar gyfer y rhan fwyaf o blant bydd hyn yn golygu mynd yn ôl yn rhannol i'r ysgol yn y cyfnod pedair wythnos yma. I'r plant hynny sy'n cael eu gwarchod am resymau iechyd (neu iechyd perthynas), cyngor y llywodraeth o hyd yw aros gartref felly bydd angen cadw at y trefniadau cyswllt o bell ar eu cyfer nhw.

Bydd yr ysgolion yn gweithredu'n wahanol iawn, o leiaf am weddill tymor yr haf. Bydd maint dosbarthiadau yn fychan a bydd ysgolion yn gweithredu pellter cymdeithasol. Gall hyn olygu y bydd gwersi'n cael eu rhedeg yn wahanol, bydd amserau egwyl a chinio yn amrywio, gall amser cychwyn a gorffen yn yr ysgol fod yn wahanol a bydd angen i ni newid sut rydym yn gwneud pethau fel glanhau a chludiant.

Fel cyngor, rydym yn cydnabod na fydd pob ysgol yn gallu gwireddu dyhead Llywodraeth Cymru ar unwaith. Bydd capasiti mewn ysgolion yn amrywio a bydd angen i lawer o ysgolion gyflwyno ail-integreiddiad graddol. Gall hyn effeithio'r grwpiau blwyddyn a all fynychu a'r dyddiau sydd ar gael.


Mae'r cyngor ac ysgolion yn Nhorfaen nawr yn ystyried y trefniadau sydd angen eu gwneud i ail-agor, a rhan bwysig o hyn yw rheoli'r risgiau i gadw pawb yn ddiogel.

Rydym yn gwybod y bydd gan rieni lawer o gwestiynau a byddwn ni, a'n hysgolion, yn rhannu mwy o fanylion maes o law. I ganiatáu i ni wneud hynny yn gyflym, gofynnwn i chi beidio â chysylltu ag ysgolion yn uniongyrchol ar hyn o bryd.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto unwaith y cawn gyfarwyddyd pellach gan Lywodraeth Cymru, a byddwn bryd hynny hefyd yn darparu bwletin holi ac ateb ar wefan y cyngor.

Diolch i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir iawn



**Dermot McChrystal**
**CHIEF OFFICER, EDUCATION AND LEAD DIRECTOR FOR CHILDREN & YOUNG PEOPLE**

**THIS DOCUMENT IS AVAILABLE IN LARGER PRINT AND BRAILLE UPON REQUEST**
We welcome correspondence in Welsh and English.
Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and will not lead to delay.
*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.*
*Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd yn arwain at oedi.*

*Civic Centre, Pontypool, Torfaen, NP4 6YB   Tel 01495 762200*
*Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 6YB   Ffôn 01495 762200*
**www.torfaen.gov.uk**

m:\education\senior management\mt\chief officer education\letters\2020\080620 letter to parents - welsh.doc